**Hysbysiadau Statudol 2022/2023**

Mae Datganiad Cyfrifon Drafft 2022/2023 ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cael ei baratoi yn unol â Chodau Ymarfer Cyfrifo, Safonau Cyfrifyddu a darpariaethau Statudol perthnasol CIPFA. Fodd bynnag, nid yw'r Cyfrifon hyn wedi'u cwblhau a'u hardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol erbyn 31 Mai 2023 ac felly mae angen yr hysbysiad a ganlyn i gydymffurfio ag adran 10(4) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014:

> Nid yw'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2022/2023 wedi'i gwblhau eto oherwydd datrysiad hirfaith i fater penodol yn ymwneud ag ailbrisio asedau sefydlog a'r potensial ar gyfer camddatganiad sylweddol o ddibrisiant yng nghyfrifon statudol 2021/2022. O ganlyniad, nid yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi llofnodi ac ardystio'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.
>
> Yn unol â'r rhaglen ailbrisio asedau ddiwygiedig, mae'r Awdurdod yn rhagweld derbyn ailbrisiadau drafft o asedau sefydlog ym mis Gorffennaf 2023 ac o ganlyniad yn bwriadu cwblhau'r gwaith o baratoi'r Datganiad Cyfrifon Drafft erbyn 31 Awst 2023. Bryd hynny bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ystyried y gofyniad i lofnodi ac ardystio'r Cyfrifon yn unol â'r rheoliadau perthnasol.
>
> Ar ôl eu cwblhau, bydd y Cyfrifon Drafft yn destun archwiliad cyhoeddus ac archwiliad allanol